

## LLEISIAU O LAWYR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

**Ffatri Spitfires, Castle Bromwich (1940) & Ffatri Bop JR Hargreaves,  
Llanelli (1940au)**

**Cyfwelai: VSW012 Melva Jones**

**Dyddiad: 2.12.13**

**Cyfwelydd: Susan Roberts ar ran Archif Menywod Cymru**

*There is an English summary at the end of the Welsh text*

**Dechreuwn ni off nawr gyda bach o gefndir. So os allech chi weud ‘tho fi beth yw’ch enw llawn chi?**

Dim ond Melva Jones odw i.

**00.00.37: A beth yw’ch dyddiad geni chi?**

4.6.24

**A ble gesoch chi’ch geni?**

Yn Pontiets geso i’n geni.

**A wedyn beth oedd ych tad yn neud, pwy waith oedd e?**

Gweithio’n y colliery oedd e gynta fi’n credu. Gweithio’n y gwaith powdwr oedd e fwya yn Burry Port fi’n credu, neu’n Pembre, le oedd y gwaith powdwr pyr’nny. Fan’na buodd e’n gwitho.

**00.01.11: A beth am ych mam wedyn, oedd hi’n gwitho neu oedd hi’n cadw gatre?**

Nago’dd. O’n i’n wyth o blant chwel. Oedd Mama, buodd hi’n sanitoriym ‘fyd cofiwch. ‘Yn nhad oedd yn gofalu amdanon ni. Buodd hi dros blwyddyn yn sanitoriym, yn Llanybydder oedd hi pyr’nny.

**Beth oedd yn bod te?**

TB neu rywbeth, neu ‘i chest hi. Sa i’n cofio. Buodd hi’n sanitoriym hefyd a fe buodd yn gofalu amdanon ni wedyn ‘nny chwel ife. Y fe oedd yn golchi a neud y cwblwl.

**Whare teg iddo fe. Fel oedd e’n ymdopi’n neud hwnna te a gweithio te?**

Oedd. Oedd e ddim yn gwitho pryd hynny. Ar y dôl oedd e, fi'n cofio. Y fe oedd yn golchi a cadw ni â bwyd a popeth, erbyn i ni fynd i ysgol Pontiets ife. Ysgol Pontiets o'n i pyr'nny. So wedyn 'nny llosges i pan o'n i'n ddeuddeg mlwydd oed. Bues i jest blwyddyn yn yr ysbyty yn Llanelli. Llosges i'n gefen i gyd.

### **Fel digwyddodd hwnna te?**

Tân. Rhy agos i'r tân a a'th 'yn ddillad i ar dân, a yn lle, rhedes i mas dofe, un ar ddeg neu rywbeth o'n i. Rhedes i mas, a daeth dyn lawr a towlu cot amdano i a bues i ar 'yn fola yn yr ysbyty am dri mish, ar 'yn fola. A oedd yr hospital yn wonderful cofiwch. O'n i'n mynd nôl i fisito nhw, bues i ar ôl dod gatre. Llosges i fel hyn i gyd. So ar 'yn fola o'n i yn yr hospital. O'n i'n helpu nhw mas yn rhywbeth ar ôl i fi wella. O'n nhw i gyd yn gweud, 'cer i ôl y bedpan', yn y nos, pan o'n i'n dod yn well chwel ife.

### **Oedd ych mam yn y sanitoriym pyr'nny?**

Nagoedd. Oedd Mama gatre pyr'nny.

### **00.02.55: O'n nhw siwr o fod yn becsu bod hwnna wedi digwydd i chi te?**

O'dd, o'dd.

### **00.02.59: O'ch chi'n gweud bod chi'n un o wyth o blant, sawl wha'r a sawl brawd?**

Peder wha'r a pedwar brawd.

### **A ble ych chi'n ffito mewn i'r drefen?**

Wel Megan oedd yr hena. A wedyn 'nny fi wedyn 'nny, Sid wedyn 'nny, a Lil, Lili wrth gwrs, Megan, fi Lili a Sid wedyn 'nny, a Luther (brawd 'da fi'n byw yn Birmingham) a Sid wedi mynd wrth gwrs. A ma' Ron wedyn 'nny. Mae e wedi cael strôc. Ma' fe ddim yn gallu siarad lot. So mae e'n byw yn Fictoria Road. A wedyn 'nny David wedyn 'nny. Dai ys gwedon nhw. Fe yw'r ifanca. So gas Mama blynydde. Gas hi pedwar gynta, gas hi blynydde wedyn 'nny, gas hi pedwar wedyn 'nny chwel.

### **Mewn dou batsh gyda ddi.**

O'dd. Dou batsh.

### **Ewn ni nôl nawr i'r amser o'ch chi'n ysgol Pontiets. O'ch chi'n joio ysgol?**

Na, dim fel 'nny. O'n i wedi colli lot o'r ysgol. O'n i wedi colli blwyddyn. Ges i'n fwrw lawr gyda motobeic wedyn 'nny, colli'r ysgol wedyn 'nny ife. So buodd Luther a Lil yn y Gwendraeth, dim ond fi buodd ddim yn y Gwendraeth. A mynd i helpu wedyn 'nny. Mynd i helpu ar y ffarm pan o'n i'n fourteen wedyn 'nny.

### **00.04.20: Pwy oedran o'ch chi'n gadael ysgol te?**

Fourteen siwr o fod.

### **A lan tan pyr'nny o'ch chi wedi bod jest yn Ysgol Pontiets?**

O'n, o'n.

### **So shwd o'ch chi'n twmlo ymbytu gadael ysgol?**

Wel, sa i'n gwbod. O'n i'n dod mas o'r ysgol ddim yn moyn mynd nôl ife. A fel 'na oedd hi.

### **A beth o'ch chi'n disgwyl neud ar ôl gadael ysgol?**

Na, o'n i ddim yn ffysi. Helpu. O'n i'n mynd i helpu pawb o'n i'n mynd i neud. Ie, sdim dal beth o'n i'n neud.

**00.04.57: A oedd ych mam neu ych tad moyn i chi rhwybeth arbennig?**

Sa i'n cofio i weud y gwir wrthoch chi. Sa i'n cofio. Luther oedd, a Lil. Nhw oedd. A Megan. Nhw oedd mwya brainy, ys gwedon nhw. A o'n i wedi colli shwd gwmint o ysgol.

**00.05.19: Ond bydde aros 'mla'n yn rhywbeth bydde chi wedi lico neud ne' o'ch chi ddim yn ffysd?**

Na. O'n i ddim yn ffysi. Na. Moyn mynd i witho o'n i.

**Ble o'ch chi moyn mynd i witho te?**

Wel bues i sha Llannon yn helpu yn y ffarm fach oedd gyda hi. A helpu mas fan'nny. A wedyn 'nny bues i'n helpu'n Brynstores (Ponthenri) wedyn 'nny. O'n i lan man'na wedyn 'nny. Bues i'n cl'au offices yn Thyssen am ten years.

**Dofe?**

Do. Ges i gold watch. Thyssen yn Cynheidre pyr'nny. Do. Bues i deg mlynedd fan'na 'fyd. O'n i wedi priodi pyr'nny wrth gwrs.

**00.06.06: Pryd dechreuoch chi gweithio yn y ffactri. Chi'n gwbod sonion ni am y ffactri yn Birmingham. Neu fel digwyddodd hwnna?**

Wel o'n i gyd yn gorfod mynd mas. Oedd rhaid i chi fynd i joino lan, either mynd i'r land army neu'r air force neu'r ATS. So o'n i'n rhy ifanc. Oedd rhaid bod ni'n seventeen. Sixteen and a half o'n i. So penderfynodd fi a Megan, 'yn wha'r i, fynd i Birmingham. A oedd cousin Mama yn byw, yn gwitho'n Birmingham. Un o Llanelli oedd e. Oedd e'n gwitho'n y ffactri Castle Bromwich, chwel. So gas e, oedd e'n sefyll i ni ddod lan ar y trein, a buon ni'n while am digs, ys gwedon ni pyr'nny. A ffaelu cael, cnoco'n bobman chwel. A o'dd e'n sefyll yn digs, ond o'dd dim lot o le 'na. Ond perswedodd e'r landleidi i ni ca'l, gethon ni bocs rwm. Rwm bach, fi a'n wha'r. Ie, a fan'nny. Rwm bach o'dd e. O'dd dim lot o siâp neud bwyd arni ddi. 'Na beth o'dd hi'n gweud bob nos o'dd, 'What do you want for sandwiches, Melva? Bread and dripping, or bread and jam'. O'dd rations chwel ife. So 'na le o'n i'n mynd, towlu fe off. Dylen i ddim gweud, yn y bore i'r adar, a pyrnu tost yn y ffactori. O'n i'n gweithio, o'r gwely i'r gwaith oedd e, ac o'r gwaith i'r gwely. Orië mowr. Welon ni ddim Birmingham.

**00.07.27: Ond pan, yn ystod yr amser 'na oedd lot yn cael 'call up', lot o ferched yn cael 'call up'. Fel oedd hwnna'n digwydd te? O'ch chi'n cael llythyr, neu beth oedd yn digwydd?**

Wel, sa i'n cofio yn iawn. O'dd pawb yn gorfod mynd, ond rheina oedd yn gorfod gwitho ar ffarm chwel ife, ne' rywbeth fel 'na, neu colliers. O'n nhw ddim yn gorfod mynd.

**Ond shwd o'ch chi'n twmlo am 'na? O'ch chi'n gwbod bod e'n dod o'ch chi?**

O'n, wel o'n i'n beco ontyfe. A o'dd y boms yn disgyn pan o'n i yn Birmingham. O'n i'n dod gatre'n y bore, gwitho'n y nos. Ac o'ch chi'n gweld rhai tai'n fflat, chi'n gwbod. A oedd yr air raids yn dod, pan o'n i'n mynd yn y cwtsh dan sta'r yn y lojins, a tin hat ar yn penne ni, a gweddio bydden i'n iawn ontyfe, chi'n gwbod.

**00.08.11: Ond yn ystod y cyfnod 'na, chi o'dd wedi dewish mynd i Birmingham ife?**

O'dd rhaid i ni joino, fynd i rywle.

**Ond chi'n gwbod, allech chi wedi joino, mynd i rywle'n agosach i gatre achos nagodd lle lawr yn Trecŵn a o'dd rhywle lan yn Bridgend, llefydd fel 'na i ga'l?**

Sa i'n cofio. Wy' ddim. O'dd cousin Mama'n gwitho'n y ffactori yn Birmingham a o'dd e wedi gweud, chi'n gwbod alle fe ga'l ni mewn i'r ffactori, so fel 'na nethon ni.

**00.08.38: A penderfynodd y ddwy o' chi?**

Do.

**Chi a'ch wha'r?**

Do. Lan yn y trein wedyn 'nny.

**O'ch chi'n gwbod ble o'dd Birmingham, o'dd e'n bell pyr'nny?**

Yn bell, orie'n y trein pyr'nny. Orie. A man'na landon ni a geson ni'r lojins fan'na. Gymerodd hi ni mewn.

**00.08.58: O'ch chi'n gorfod mynd i weld rhywun neu ca'l ryw fath o interview cyn mynd 'na?**

Na. Mynd streit i'r ffactori a wel, o'dd eisie parts y Spitfires chi'n gwbod.

**Ond o'n nhw'n gwbod bod chi'n dod? Chi'n gwbod beth fi'n meddwl, fel o'ch chi wedi trefnu fe?**

O'dd e fi'n credu, o'dd y cousin wedi chi'n gwbod.

**Wedi trefnu fe i chi?**

O'dd e wedi trefnu bod ni'n ca'l mynd i'r ffactori, so fel 'na buon ni.

**A dim lojins wedi trefnu gyda chi cyn mynd lan?**

Nago'dd. Nago'dd.

**O'dd e'n tipyn o 'adventure'?**

O'dd, chi'n gweud 'tho fi. Ond o'dd dim lot o siâp arni ddi, y Mrs Lawson o'dd hi. Ond o'dd dim lot o siâp neud bwyd arni ddi. A Mama'n dod lan a ffowlyn gyda hi, a ddim wedi cwcan achos o'dd rysh achos bod hi'n dod lan, achos o'n i'n yr hospital, a o'dd Mama'n dangos iddi fel i stwffo'r ffowlyn.

**00.09.58: A beth o'n nhw'n neud yn y ffactori te?**

Parts of Spitfires o'n i'n neud chwel. Neud part o'r wings, ne o'n i'n fwy yn neud yn yr 'oil' a'r cogs a'r sgrws, a pethe, popeth, bolts a pethe. Sdim dal beth o'n i'n neud. Part o'r wing ne', chi'n gwbod.

**00.10.14: O'ch chi a Megan gyda'ch gilydd?**

O'n, o'n.

**Yn gwitho'n yr un part?**

O'dd, o'dd. Falle o'dd hi'n gwitho ar y gwaelod a fi ar y top, chi'n gwbod. O'n ni'n cwrdda amser cael bwyd wedyn 'nny, wa'th o'n i'n pyr'nny bwyd 'na. Tost yn y bore ne byrnu pasti ne' rywbeth i gino. Wel, dim ond mynd gatre i gysgu o'n i jyst chi'n gwbod.

**O'ch chi ffaelu cwcan eich hunan ar ôl mynd gatre?**

Na, na.

**O’dd dim lle i neud ‘na?**

Na, na. O’n i’n golchi ynte berwi peth dŵr i fi ca’l golchi i fi a Megan. O’dd dim toiled ar y lofft, dim byd. Chamber o dan y gwely o’dd dofe.

**Chi’n cofio’ch diwrnod cynta’ chi fan’na? Fi’n gwbod o’dd e sbel yn ôl nawr? Ond odych chi’n cofio fel o’ch chi’n twmlo?**

Wel, o’n i’n twmlo’n lost fel chi’n gwbod, o’n i moyn mynd gatre chwel ife. Fi a Megan yn gweud, ‘o, jiw, jiw, wel, wel, licen i fod gatre nawr’. Fel ‘na o’dd hi ife. Meddwl am gatre.

**O’dd e siwr o fod yn help bod Megan ‘da chi ontyfe?**

O’dd, o’dd, o’dd. A pan o’dd yr air raids wedyn chwel, o’n i’n gweud, yn gweddïo bydden i’n iawn, licen i fod gatre ife. O’n i’n dod gatre walle ambell i weekend, dim ond diwrnod, trafeilu orie ar y trein, a dod gatre a diwrnod gatre a mynd i dans y Bont. Fi a Megan.

**00.11.33: O’ch chi’n dod nôl o Birmingham i fynd i dans y Bont?**

Dans y Bont, o’n. A wedyn ‘nny, o’n i’n mynd nôl wedyn ‘nny bore dydd Sul, ne’ os bydden ni’n gwitho, nos Sul, rhywbeth fel ‘na chwel.

**00.11.46: O’ch chi’n torri’ch calon ne’ o’ch chi’n meddwl, reit ma’ rhaid i fi neud hwn nawr?**

Na, o’n i ddim yn torri calon. That’s one of the things. O’dd rhaid i ni ife.

**00.11.53: Ond shwd byddech chi’n twmlo sech chi wedi gorfod mynd ‘na ar ych pen ych hunan?**

O, fi’n credu fydden i wedi, sa i’n gwbod beth bydde wedi digwydd.

**00.12.02: Pwy o’dd yn dangos i chi beth i neud wedyn, chi’n gwbod o’ch chi’n gweud bod chi’n gwitho?**

O’dd. O’dd y dyn yn dod rownd, in charge, o bob grŵp chi’n gwbod. A fe o’dd yn rhoi jobs i ni. ‘Do this now’. A o’dd e’n dangos i ni, and that’s it. Ar ôl cwpla wedyn ‘nny o’n i’n ysgrifennu lawr beth o’n i wedi neud. A wedyn ‘nny o’n i’n ca’l mynd i job arall wedyn ‘nny.

**00.12.25: Shwd beth o’dd y gwaith te?**

Fishi iawn. Fishi iawn. Dim ond ca’l cwarter awr ne’ hanner awr amser cino, ‘na i gyd. Packed. O’dd hi’n lle mowr chwel. O’dd e’n ffactori fowr, fowr.

**00.12.40: Faint o’dd yn gwitho ‘na wedech chi?**

Jiw, jiw, sa i’n gwbod. O’dd e’n lle mowr. O’n i’n cwrdd â rhai o Scotland, a merched o Scotland, a bob man chwel.

**O’dd hwnna’n siwr o fod yn ddiarth i chi’n dod o Ponthenri?**

O’n. Welsh girls ac o’n nhw’n gwbod bod ni’n canu. A o’n nhw’n dod ni i ganu. Wel, o’dd neb yn clywed chi’n canu. O’dd shwd sŵn mewn ffactri, o’ch chi ddim yn clywed ych hunan. A pan o’dd yr air raids yn dod o’n nhw’n stopo’r machines wedyn ‘nny chwel, a’r cwblwl yn dawel.

**00.13.07: Beth o’ch chi’n neud os o’dd air raids yn dod pan o’ch chi’n y gwaith?**

O'n i ddim yn gallu neud dim byd yn y gwaith. Beth o'ch chi'n gallu neud? Yn dymuno bydde fe ddim yn ...

**Yn aros ble o'ch chi?**

Ie. Yn dymuno bydde fe'r boms ddim yn disgyn ife.

**Am faint bydde hwnna'n para wedyn?**

Wel, sdim dal, dim dal. Hanner awr falle. Rhyweth fel 'na.

**Mae'n sbel ondywe?**

Ody. Pawb yn sefyll a clywed 'shshshsh'. Ac yn clywed wedyn 'nny, all clear wedyn 'nny. O'n i'n reit wedyn 'nny ife. O'n i'n mynd gatre yn y bore wedyn 'nny ac yn gweld ambell i dŷ lawr yn fflat. Mynd gatre ar y bys wedyn 'nny. I Stetchford (?) oedd enw'r stryd ble o'n i'n byw.

**O'ch chi'n mynd o'r lojins i'r gwaith ar y bys ife?**

O'n, o'n.

**Service bys o'dd e?**

Na, sa i'n cofio. Bysus y gwaith o'n nhw'n rhedeg o'dd e, i'r ffactori chi'n gwbod.

**00.14.04: Ife menywod o'dd yn gwitho 'na fwya ne' o'dd lot o ddynon 'fyd?**

Ie. Menywod. Dynon 'fyd. Ond fwya fi'n credu oedd menywod. O'dd dynon 'fyd. Charge hands o'n nhw'n galw'r dynon. O'n nhw'n dod rownd a rhoi jobs i chi chi'n gwbod.

**Oedd menywod ddim yn gwneud gwaith y charge hands te?**

Nago'dd. Dynon o'dd fwya. Dynon o'dd fwya fi'n cofio.

**Beth oedd charge hand yn neud?**

Wel, dim ond dangos fel oedd y machines yn gwitho, watsho bod ni'n neud nhw'n iawn. A nhw'n sieco chwel, fel bod pethe'n paso'n iawn. Bydde hi'n no good os bydde, o'dd e ar yr awyren chwel. Bydde rhai'n cael eu lladd chwel ife. Rhaid bod popeth yn sbot on.

**Shwd o'ch chi'n teimlo te bod chi'n gwitho ar y Spitfires 'ma?**

O'dd dim gwahanieth 'da fi. O'n i'n meddwl, pan fi'n gweld nhw nawr, fi'n meddwl, jiw o'n i'n part o hwnna, chi'n gwbod.

**O'dd Megan yn joio 'na 'fyd?**

O'dd, o'dd, o'dd. Y ddwy ohono ni'n gwmni chwel.

**Pwy amser o'ch chi'n dechre'n y bore te?**

O'n i'n mynd, o'n i'n mynd am wech fi'n credu, hanner awr wedi wech o'r tŷ. O'n i'n dechre bytu saith, half past seven, nes bod hi'n wech yn y nos.

**O'dd e'n ddiwrnod hir.**

O'dd, o'dd. A off i'r gwely, ca'l bwyd ac off i'r gwely ife.

**O'dd e'n waith brwnt o gwbl neu o'dd e'n olreit?**

O'dd e'n olreit. O'n i'n cael jobyn brwnt, o'dd fel sech chi'n gweud bolts yn dod mewn yn oil chi'n gwbod, ac o'n i'n dod un ar y tro ar y machine a tynnu lawr, ac ôl un arall. O'dd

hwanna, y jobyn hwnnw. O’dd y rest yn olreit chi’n gwbod. O’dd wings y plên, o’ch chi’n neud eu edges nhw fel ‘na. O’dd hwanna’n lan chi’n gwbod te.

**Beth o’ch chi’n gwishgo te?**

Na, sai’n cofio. O’dd dim byd ‘da ni. O’n i’n gwisgo fel o’n ni. O’dd rhywbeth ar ‘yn penne ni fi’n credu, achos y machines chwel ife.

**00.16.07: I gadw’r gwallt nôl ife?**

Ie, ie.

**O’n nhw ddim yn rhoi overall na dim byd fel ‘na i chi?**

Na.

**Achos y pwynt yw o’ch chi ffaelu golchi lot yn y lojins.**

Na. O’dd dim machine golchi i gael.

**Ac o’dd hi ddim yn golchi i chi, y fenyw oedd yn cadw’r lle?**

Na, na.

**00.16.25: O’dd pobol erill yn lojo gyda hi te?**

O’dd. O’dd cousin mam.

**O’dd e ‘na’n barod?**

Ie, fanna oedd e.

**Ond o’dd dim merched erill o’r gwaith ‘na?**

Na, o’dd e ddim yn dŷ mawr chwel. O’dd bedrŵm ‘da nhw, o’dd hi wedi claddu ei gŵr wrth gwrs. A o’dd cefnder Mama wedyn ‘nny. A fi a Megan, ac o’dd boes rŵm bach ‘da ni.

**00.16.49: Faint o’ch chi’n talu, chi’n cofio?**

Sa i’n cofio’n iawn. Gwedwch ymbytu saith bunt, neu rywbeth fel falle, yr wythnos. O’dd e’n lot pyr’nny chwel.

**00.17.02: Faint o arian o’ch chi’n ca’l te?**

Sdim dal beth o’n i’n ca’l. Fi’n cofio o’n i’n hala bobo wyth punt, neu naw punt, dependo ar faint o waith o’n ni’n neud chi’n gwbod. A o’dd Megan yn neud mwy o waith na fi falle, o’dd hi’n hala deg punt.

**O’ch chi’n hala arian gartre te?**

O’n i’n hala registered letter bob bore dydd, a fi’n gofio Lottie Mills yn mynd rownd â’r post pyr’nny, ac o’dd hi’n gweud, ‘Annie, ma’ merched da ‘da ti,’ registered letter bob bore dydd Llun.

**00.17.30: A beth o’dd ych mam yn gweud te?**

O’dd Mama’n thrilled. O’dd hi’n gweud ‘tho pawb chwel oedd hi.

**O’dd hi’n siwr o fod yn browd ohonoch chi, wedi gwneud shwd ymdrech?**

O’dd, o’dd.

**So o’ch chi’n dechre am saith yn y bore?**

O'n.

**O'ch chi'n ca'l brêc wedyn?**

O'n i'n ca'l brêc, o'n i'n ca'l tost wedyn yn lle'r sangwejes o'dd hi'n rhoi. A cael awr i gino fi'n credu.

**O'ch chi'n mynd mas o'r ffactori yn ystod (y shift)?**

Nagon.

**O'ch chi'n gorfod aros 'na?**

Mewn yn y ffactori o'n i. O'dd neb yn mynd mas.

**Neb yn mynd mas am wâc neu i brynu rhywbeth?**

Na, jiw, na.

**Pam 'nny te?**

Sa i'n gwbod.

**Ife achos bod neb yn cael neu achos bod ddim unman i fynd?**

O'dd dim unman i fynd, sa i'n credu. O'dd y ffactori, o'dd dim byd ar bwys chi'n gwbod.

**00.18.30: A shwd o'dd y bobol erill yn ych trin chi?**

Gwd. O'n nhw'n meddwl y byd am y Cymry, yn enwedig y Sgots. 'How many bairns at home?', o'n nhw gweud. 'Beth o'dd honna'n gweud nawr?' 'How many bairns?', o'dd hi'n gweud. O'dd y Scotsh yn ferched neis iawn.

**00.18.45: A beth am yr iaith wedyn achos o'ch chi wedi dod o ardal Gymra'g iawn?**

O'dd lot o'r Sgotsh, o'n i'n gweud 'tho Megan, 'sa i'n deall beth ma' hon yn gweud'. O'n nhw'n meddwl y byd am y Cymry chi'n gwbod. O'dd rhai o Birmingham, o bob man te. O'n i wedi neud friends â lot 'na.

**00.19.17: Chi wedi cadw mewn cysylltiad â rhai?**

Naddo, dim â neb.

**Ond o'ch chi ddim 'na am sbel fawr.**

Buon ni ddim 'na am sbel, dim cweit blwyddyn chwel achos etho i'n dost chwel ife. Fi'n siwr o'dd hi ddim yn caledi dillad chwel. Geso i damp sheets chwel. O'dd hi ddim yn caledi nhw 'run peth â ni chwel ife.

**Gallwch chi gweud 'tho fi beth ddigwyddodd te pan ethoch chi'n dost?**

O'n i ffaelu plygu, a dim ana'l 'da fi, a wedodd Megan, 'Ma' rhaid i ni fynd at y doctor, ti'n dost.' A cerdded i'r syrjeri, fel hyn o'n i'n cerdded. A draw i'r syrjeri, a wedodd e, 'You've got pleurisy'. A wedyn 'nny o'dd y landleidi'n doddi poltis, a gorffes i fynd i'r hospital. A bues i fan'na cwpwl o ddiwrnode achos daeth Mam lan, a cocso nhw os allen i fynd gatre, achos o'dd hi wedi dod lan yr holl ffordd.

**Beth o'n nhw'n gweud yn y gwaith te bod chi wedi mynd yn dost? O'n nhw'n gweud rhywbeth?**

Na, o'n nhw ddim yn gallu neud dim byd, siwrne o'dd TB arno i, o'dd rhaid.



**00.20.30: Ond o’dd Megan wedi gorfod cario mla’n.**

O’dd. O’dd Megan ar ôl. A ‘na i gyd ‘sda fi i weud ‘tho chi.

**Gallwch chi gweud ‘tho fi am y canu, o’ch chi’n gweud bod chi’n arfer canu’n y gwaith, fi’n gwbod o’dd e’n swllyd ‘na. O’ch chi a’ch wha’r yn gantorian da.**

Falle bydden ni’n ca’l brêc chwel, falle bydden nhw’n gofyn i fi i ganu ne rwbeth chi’n gwbod.

**Fel o’n nhw’n gwbod bod chi’n gallu canu te?**

Wel, o’n ni’n canu wrth ‘yn gwaith chwel ife.

**Beth o’ch chi’n canu?**

Sdim dal. Fi’n cofio Tom Jones, canu rhywbeth fel ‘na, ‘Delilah’. Ne’ canu beth o’dd Tom Jones yn canu pryd ‘nny, sa i’n cofio.

**O’ch chi a Megan yn canu gyda’ch gilydd?**

Nagon. Fi oedd yn canu fwya. Bues i’n canu ar ôl dod gatre. Chi’n cofio Bryn’s Band, Pontyberem? Fi oedd y crôner. Mynd i bobman gyda Bryn’s Band a Archie Clark, fe o’dd yn where accordion. Yn Pontiets ganes i gynta. Alice Bluegown i’n i’n canu, yn Hall Pontiets.

**O’ch chi ddim yn nerfus wrth ganu?**

Na. Joio canu.

**Pwy o’dd wedi dysgu chi i ganu te?**

Neb.

**Pan o’ch chi’n y ffactori, o’n nhw’n gofyn i chi ganu amser brêc o’n nhw?**

O’n i’n ferched ‘da’n gilydd. O’n ni gyd â’r lleferydd rhyfedda ife.

**O’dd tipyn o sbort i ga’l ‘na?**

O’dd, amser brêc chwel.

**Er bod chi i gyd o lefydd gwahanol?**

O’dd. O’dd rhaid i ni neud tamed bach o sbri ife.

**00.22.24: O’ch chi’n gweud bod dynon yn gweitho ‘na ‘fyd, ond charge hands o’n nhw, ne’ o’dd rhai’n neud yr un gwaith â chi?**

O’dd rhai. Wel, o’dd gwahanieth part. Wel, o’dd e’n shwd le mowr chwel. A dynon ar y gwaelod falle. Charge hands o’dd y dynon oedd yn dangos i ni beth i neud.

**00.22.43: O’dd rhai jobs ‘na yn gofyn am sgils speshal?**

Na, sa i’n gwbod. Falle o’dd rhai â gwell jobs, sa i’n gwbod. Ond parts o’r plêns o’dd pawb yn neud chwel.

**Fel o’ch chi’n ca’l ych talu wedyn? Wrth faint o’ch chi wedi neud?**

Ie. Wrth faint o’n i wedi neud.

**Beth o’n nhw’n neud? O’n nhw’n gosod targed i chi?**

Na. Fi'n cofio F64 o'n i ac o'dd Megan yn nymbar F63. A envelopes 'da ni. Ac o'n i'n cael 'yn talu am faint o waith o'n i wedi'i neud.

**O'dd rhai'n poeni chi achos bod chi'n dod o Gymru?**

Na.

**O'dd tynnu coes 'na?**

Nago'dd. Wel, dim ond amser brêc o'n i'n ca'l siarad. O'n i mor fishi. O'dd popeth yn gorfod mynd, jiw, jiw. O'dd dim lot o tsans 'da chi, nago'dd. Pawb yn fishi o'dd hi ife.

**Weloch chi dipyn o Birmingham yn ystod y cyfnod 'na?**

Welon ni ddim byd. O'r gwely i'r gwaith, ac o'r gwaith i'r gwely, reit. Siwrne buon ni yn y Bull Ring. Siwrne buodd fi a Megan am awr neu ddwy. A gartre wedyn waeth i'r gwaith oedd hi. O'dd dim amser am ddim byd arall.

**O'dd y menywod o'dd yn gwitho 'na, ife rhai di-briod o'n nhw?**

O'dd rhai'n briod chwel. O'dd lot yn ifanc, 'run peth â ni.

**Ond o'ch chi'n gweud o'dd dim lot o siawns i gymdeithasu tu fas y gwaith.**

Nago'dd.

**O'dd y ffactori mewn lle ar ben ei hunan, neu o'dd lot o bethe o'i gwmpas e?**

Na, fi'n credu ar ben ei hunan o'dd e. Fi'n cofio'r giats mowr. Fi'n cofio dim byd ar bwys. O'dd y bys yn mynd mewn ac o'n i gyd fan'na, a bys yn mynd â ni wedyn ni gatre.

**Gesoch chi ddim pay rise tra bod chi 'na dofe?**

Na.

**Ond beth o'ch chi'n meddwl am y pai?**

Arian mowr. O'dd e'n lot pyr'nny chwel. O'dd wyth punt yn lot pyr'nny. O'dd Mama'n meddwl bod ffortiwn.

**Ond o'ch chi'n cadw peth o fe i'ch hunain?**

O'n i'n cadw peth i gael talu'r digs chwel, a i gael bwyd.

**O'dd peth 'da chi ar ôl i hala ar rywbeth speshal i'ch hunan?**

O'dd. Dillad bydden i'n pyr'nny ife.

**O'dd dim lot o siawns i siopa.**

Nago'dd. Pan o'n i'n dod gartref bydden i'n pyrnu rhywbeth.

**00.25.30: A pwy mor amal byddech chi'n dod gartre?**

Dim yn amal. Weekend, siwrne'r mis 'falle.

**Byddech chi wedi lico dod nôl yn fwy amal?**

Bydden ond o'dd e'n costi ar y trê. A o'dd dim point i chi. Dim ond diwrnod o'n i gatre.

**Ond sawl diwrnod yr wthnos o'ch chi'n gwitho te?**

O'n i'n ca'l dydd Sul off.

**O'ch chi'n gwitho dydd Sadwrn 'fyd?**

Sdim dal. Fi'n cofio ni'n gwitho'r nos. O'n i mewn nos Sul. Fi'n cofio'r shifft nos. Ond sa i'n cofio os o'n i'n gwitho dydd Sadwrn.

**O'n nhw'n gwitho dydd Sul fanna o'n nhw?**

O'n ni'n gwitho shifft nos Sul.

**Peth od ife.**

Fi'n siwr o'n i mewn nos Sul a dod gatre bore dydd Llun.

**O'dd lot o ffactoris, o'dd dim gwitho dydd Sul. Achos taw i'r rhyfel o'dd e?**

Achos taw i'r rhyfel o'dd e. O'dd eisie Spitfires chwel.

**00.26.35: A beth o'dd agwedd bobol erill ato chi wedyn? Gwedwch chi bod chi'n dod gatre am y diwrnod, ac o'ch chi'n gweld rhai wedi aros rownd ffordd hyn. Beth oedd agwedd nhw ato chi?**

O'n i'n dod gatre, ac o'dd bois yn dod gartre ar leave hefyd. Ond dim ond diwrnod a hanner fel 'na o'n i'n ca'l gatre. O'n i'n dala'r trê'n nôl. Ac o'dd orie ar y trê'n. A walle oedd bois wedi bod gatre ar leave a mynd, a falle bydden ni'n gorfod sefyll ar 'yn traed yn y coridor ar y trê'n. O'dd dim lle i eistedd lawr. O'dd bois yn mynd gatre a mynd nôl, chi'n gwbod fel o'dd pyr'nny. Sowlidwr ife.

**O'ch chi'n ca'l chat 'da nhw a gweud 'tho nhw bod chi'n gwitho mewn ffactri Spitfire?**

Na, sa i'n cofio fi'n ca'l chat 'da nhw. O'n ni ar 'yn tra'd, neu'n eistedd ar y cesys yn y coridor.

**O'dd pawb yn cael yr un peth te, yr un arian am beth o'n nhw wedi'i wneud?**

O'dd rhai mwy clou 'na ni. O'n nhw'n ennill fwy o arian ife.

**O'n nhw wedi bod 'na am fwy o amser?**

O'n.

**O'dd unrhyw percs i ga'l am weithio na? (O'n nhw'n rhoi unrhywbeth extra i chi rhywbryd?)**

Na, na. Dim ond ca'l beth o'dd yn dod i chi na i gyd.

**00.28.20: Achos bod nhw'n neud pethach i'r rhyfel, o'dd na unrhyw 'rules and regulations'? Beth o'dd y rheole 'na? O'n nhw'n strict?**

Dim ond bod ni'n neud 'yn gwaith na'i gyd, a watsho bod y machines 'da ni, a bod 'guard' yn y ffrynt. Iwso hwnna o hyd. A walle 'na beth na'th 'yn wha'r o'dd, a 'na pam a'th shrapnel iddi llygad hi falle. O'dd guard 'da chi'n y ffrynt ac o'dd rhaid i chi iwso hwnna o hyd. Precautions chwel ife. O'dd rhaid iwso hwnna chwel.

**Beth ddigwyddodd i Megan te?**

Sa i'n gwbod beth. Sa i'n cofio beth wedodd hi, ond a'th tamed bach yn ei llygad hi ta beth.

**Pishin o shrapnel?**

Shrapnel. Beth o'dd hi'n neud, sa i'n cofio. Achos ar ôl i fi ddod gatre gas hi fe chwel.

**Pryd digwyddodd hwnna te? O'dd hi wedi bod 'na am sbel fach ar ôl chi.**

O'dd sbel fach ar ôl i fi ddod gatre.

**00.29.17: O'dd dim shwd beth ag Undeb i ga'l pyr'nny o'dd e?**

Nago'dd.

**Beth byddech chi'n neud te os o'dd problem ne os o'ch chi moyn siarad am unrhywbeth? O'dd 'na unrhywun allech chi fynd i siarad â nhw?**

Nago'dd. Neb. Pawb yn wario mla'n o'dd hi. Yn neud 'i gwaith ac off gatre. And that's it. Nôl 'run peth bob dydd.

**O'ch chi'n enjoio fe?**

O'dd rhaid. O'n i'n gwbod bod rhaid i ni. Bydde well 'da fi bod gatre, wrth gwrs. Make the most of it, ys gwedodd y merched.

**O'dd rhai'n conan te, eu bod nhw ddim yn lico fe?**

Na. Pawb yn treial bod yn cheerful ife.

**Pam? (Achos taw y rhyfel o'dd e)**

Achos taw y rhyfel o'dd e, a pawb yn meddwl bod ni'n neud rhywbeth at y (rhyfel), dofe.

**00.30.14: Chi'n fenyw practical nagych chi? Chi'n gallu neud lot o bethe. O'dd rhaid merched 'na ... ffaelw neud y gwaith?**

Na, cwrddes i ddim â neb fel 'na. O'dd pawb yn, chi'n gwbod. Pawb yn gallu neud e. Walle o'dd jobs mwy speshal fel ych chi'n gweud nawr. Walle o'dd y dynon yn neud rheiny. Ond parts o'r awyren o'n i'n neud.

**00.30.50: O'ch chi'n teimlo eich bod chi'n cael eich treto'n deg?**

O'n. Pawb. Friendly, pawb yn siarad a chi'n gwbod.

**Ond gan y bosys a phobol fel 'na?**

O'dd.

**Pwy o'n nhw te?**

Dim ond y charge hands o'n i'n gweld chi'n gwbod. Dim ond wrth 'i enw nhw o'ch chi'n gwbod, o'ch chi ddim yn gwbod dim byd am eu cefndir nhw, na i gyd. O'n nhw'n dod a neud y job, na i gyd.

**Beth o'n nhw'n gwishgo?**

O'dd overall 'da nhw chwel.

**O'dd dim bosys mowr wedyn 'nny yn dod rownd i siecio?**

Nago'dd. Dim ond bod ni'n neud 'yn gwaith yn iawn, 'na i gyd. A o'n nhw'n sieco fe, o'ch chi'n mynd mewn â fe i rwm arall, a pwyso beth o'ch chi'n neud chi'n gwbod. Ac o'n nhw'n seino.

**'Na fel o'n nhw'n mesur beth o'ch chi wedi'u neud.**

O'dd machine 'da nhw yn pwyso beth o'n i 'di neud, yn seinio wedyn 'nny ac o'dd e'n mynd wedyn 'nny, ac o'n nhw'n sieco fe wedyn 'nny i ga'l gweud bod popeth yn iawn.

**Ewn ni nôl nawr ... achos o'n i'n moyn gofyn i chi os o'ch chi'n nabod unrhyw un a oedd wedi cael accident, ac o'ch chi'n gweud bod Megan ei hunan wedi cael accident pan o'dd hi 'na gyda rhywbeth yn mynd mewn iddi llygad. Beth ddigwyddodd wedyn te?**

Gas hi ddod gatre wedyn 'nny.

**Ond collodd hi ei llygad achos (y ddamwain).**

Do, o'dd hi ddim yn gallu gweld â un llygad, Megan.

**O'dd hwnna'n streit, neu o'dd hwnna wedi dirywio dros amser?**

Ar ôl dod gatre fi'n credu a, p'un os gath hi check up ymbytu fe a ddim un gallu gweld wedyn 'nny ar un llygad.

**00.32.42: O'dd hwnna siwr o fod yn sioc i chi te?**

A wedech chi ddim wrth ei gweld hi chwel, bod hi ddim yn gallu gweld.

**00.32.50: O'dd hi'n ca'l rhyw fath o iawndal, neu compensation am hwnna?**

Na.

**Ma' hwnna'n galed ondywe?**

Ydy.

**O'dd pethach yn wahanol pyr'nny.**

O'n.

**Se hwnna'n digwydd nawr.**

O'dd hwnna blynydde'n ôl. 1940 o'dd hi.

**O'dd rhai erill yn cael accidents 'na ambell waith?**

Na, weles i ddim un tra bues i 'na. Falle cael rhywbeth ar eu bys neu rywbeth fel 'na.

**00.33.18: Os o'ch chi'n ca'l rhywbeth ar ych bys beth o'ch chi'n neud te?**

Wel, o'dd First Aid 'na ife. O'ch chi'n ca'l mynd yn streit.

**O'dd dim nyrs 'na o'dd e, jest un o'r gweithwyr yn neud First Aid.**

Na, o'dd un o'r gweithwyr.

**00.33.38: Smo chi'n cofio unrhyw reole o'dd gyda'r ffactori te? Chi'n gwbod achos bod hi'n adeg rhyfel, o'ch chi'n cael siarad ymbytu beth o'ch chi'n neud?**

Nagon. Pawb yn mynd at ei gwaith a 'na i gyd.

**A shwd oedd y cyfleusterau 'na, achos o'ch chi'n gweithio mewn 'oil' a pethe ambell i waith, a o'dd rhai jobsys yn fwy brwnt na'i gilydd. O'dd cantîn 'na?**

O'dd, o'dd cantîn 'na. Fanna o'n i'n ca'l rhywbeth i gino.

**O'n nhw'n neud bwyd fan'na?**

O'dd, o'dd. A tost. O'dd cantîn 'na, o'dd.

**O'dd y bwyd yn weddol?**

O'dd.

**O’dd popeth yn lan fan’na?**

O’dd.

**A beth am y toilets a llefydd fel ‘na?**

O’n nhw’n lan. O’dd rhai, o’n nhw’n brwsho bob dydd chi’n gwobod, y llawr a popeth. O’dd shwd gymint o stwff yn dod wrth beth o’ch chi’n neud, y gwaith, chi’n deall. O’n nhw’n brwsho ‘na bob dydd.

**O’dd rhywun yn dod rownd?**

O’dd. O’dd y ffactori’n lan.

**O’ch chi’n gweud bod e’n eitha swnllyd ‘na.**

O’dd sŵn y machines i gyd chwel.

**O’dd hwnna’n mynd ar ych nerfs chi.**

Na. O’ch chi’n dod yn gyfarwydd â fe.

**O’dd dim byd dros y cluste wedyn?**

Na. O’n i’n dod yn gyfarwdd â fe.

**O’dd dim rheole Iechyd a Diogelwch, dim fel mae e heddi?**

Na, dim bod y guard hyn o flaen pob machine, ‘na i gyd. Watsho fanna so o’dd popeth yn iawn wedyn ‘nny.

**O’dd hi’n oer ‘na?**

Nagodd, o’dd hi ddim yn o’r.... O’n ni’n shwd gymint na chwel.

**Byddech chi’n nabod y person drws nesa i chi, ne’ odd dim amser am hwnna i gyd.**

O’n i’n nabod nhw, o’dd, o’dd.

**00.35.32: Beth am y rhai o’dd yn smoco wedyn?**

Na, weles i dim rhai yn smoco.

**Achos o’dd mwy yn smoco blynydde nôl o’dd e?**

P’un ai o’n nhw’n ca’l brêc a pyr’nny o’n nhw’n smoco. Ond o’dd neb o le o’n i’n gwitho ta beth.

**Smo chi wedi godded unrhyw effeithie o weithio fan ‘na?**

Na.

**Falle bod chi wedi godded effeithie lojo gyda Mrs beth yw ei henw hi?**

Mrs Lawson. Ie, bread and dripping or bread and jam.

**O’dd rheina’n cael ffling ‘da chi wedyn?**

O’n. Yn meddwl am bread and dripping, duw. Neu bread and jam, ac o’dd dim menyng na dim byd. O’n i’n ca’l tost biwtifwl yn y ffactori.

**00.36.16: O’dd stwff gyda nhw yn y ffactori te?**

O’dd.

**Ac o’dd menyf fan’na?**

O’dd. O’n i’n cael menyf fan’na. O’dd popeth yn y cantîn, i’r workers chwel. O’n i’n cael ‘pasties’ ne os o’n i moyn prynu rhywbeth amser cino.

**O’ch chi’n teimlo bod nhw’n edrych ar eich ôl chi te?**

O’n.

**Ond o’dd eisie os o’ch chi’n gwitho. Ma’ eisie rhoi petrol yn y car! O’dd rhywfaint o jogan a tynnu coes?**

Na, o’dd dim amser. Pawb yn moyn neud arian. O’dd erill yn wa’th ‘na ni ymbytu neud arian. Jiw o’dd rhai’n gwitho. Jobs arall, jobs arall.

**Rhai egstra i gael mwy?**

I gael mwy. Fwya i gyd o’ch chi’n neud. O’n i’n fwy carcus. O’n nhw’n ennill twenty, thirty, forty pound. A dependo faint o waith o’n nhw’n neud chwel. O’dd rhai yn gwitho, o Birmingham, Nottingham, sdim dal o ble o’n nhw’n dod. O’n nhw’n slasho’r gwaith.

**O’dd hwnna’n ffortiwn pyr’nny.**

O’dd. Ffortiwn. O’n i’n cownto bod ni’n ca’l ffortiwn.

**Dynon neu fenywod o’dd yn gweithio fel ‘na?**

Menywod o’dd fwya.

**Pam o’n nhw fel ‘na?**

Sa i’n gwbod. O’n nhw’n fwy keen am yr arian chwel. Siwr o fod.

**Beth o’dd eich tad yn meddwl bod chi’n gwitho ‘na te? Yn gweld ei ferched e’n mynd bant.**

O’dd Dada’n gweud, ‘odyn nhw’n olreit, ac yn watsho i gael gweld ni’n dod gatre am ddiwrnod ne ddou.

**O’dd e’n becco o’dd e? Mae’n wahanol i dad falle yn gweld ei ferched yn mynd bant.**

O’dd. Ac o’n i’n dangos y gore a gweud, ‘mae’n grêt’. O’n i ddim yn dangos gatre. Ond o’dd hiraeth arnon ni.

**Oedd e’n gofyn i chi shwd oedd y lojins?**

O’n i’n gweud, ‘o, mae’n olreit’. A pan da’th Mama lan o’dd hi’n gweld. Ac o’dd Mama’n dangos iddi wedyn fel o’dd stwffo’r ffowlyn. A gas hi sefyll nosweth, p’un ai cysgu gyda Megan wedyn ‘nny, o’n i’n yr ysbyty. A’r diwrnod ar ôl ‘nny mynd i weld y doctor wedyn ‘nny i weld os gelen ni dod gatre. Wrth bod hi wedi dod lan yr holl ffordd ac o’dd e ddim cweit yn fodlon, yn moyn i fi sefyll wthnos arall. Ond geso i ddod gatre ar y trên. A mynd â shawl amdano i.

**Ac o’dd e’n hir ar y trên.**

O’dd. A dod gatre ar y trên gyda Mama.

**Ond pan o’ch chi’n gweithio, a dechre mynd yn dost o’dd hwnna siwr o fod wedi digwydd yn gradual oedd e? Shwd o’ch chi’n teimlo’n y gwaith te?**

O’dd poen ‘da fi, ac o’n i’n gweud ‘tho Megan, ‘ma’ poen rhyfedd ‘da fi’ a oedd dim anadl ‘da fi. A detho i gatre a etho i wedyn i’r digs a ‘you’d better go and see the doctor,’ wedodd y landleidi. So wedodd hi wedyn le oedd e, ac oedd e ‘bytu tair stryd i gerdded. A mynd i’r syrjeri. A wedodd e, ‘you’ve got pleurisy’.

**Ond o’dd e wedi effeithio’r gwaith, cyn bod chi wedi cael siawns i fynd i weld doctor?**

Na. Bues i’n olreit. Ond ar y ffordd gatre oedd dim anadl ‘da fi a..

**Ar ôl cwpla shift ife?**

Shiftt dydd a shiftt nos ar yn ail. Pythownos dydd falle, pythownos nos.

**Ife nhw o’dd yn trefnu pryd o’ch chi’n gwithio pa shiftt?**

Ie.

**A shwd beth o’ch chi’n twmlo am witho shiftt nos te, achos mae’n bwrw chi mas tamed bach ondywe?**

O’dd. Wel, cysgu drw’r dydd o’n i’n neud wedyn ‘nny dofe. O’n i ddim yn gweld dim byd, dim ond cysgu a wedyn ‘nny yn barod i ddod i’r gwaith y nos ‘nny.

**00.40.28: O’ch chi’n gorfod cloco mewn ‘na?**

Pob yn ohono ni, a cloco mas.

**Beth o’dd yn digwydd os o’ch chi’n hwyr gwedwch?**

Doco chi wedyn siwr o fod. O’n i ddim yn hwyr siwrne.

**O’ch chi’n gweud bod siawns gyda rhai i witho mwy os o’n nhw’n moyn, o’n nhw’n gwitho mwy o orie?**

Na, jest neud mwy o waith. O’dd rhai ohonyn nhw’n ‘all out’.

**O’ch chi’n cael brêc yn y bore?**

O’n.

**‘Na pryd o’ch chi’n cael eich tost?**

O’n.

**Ac amser cinio wedyn.**

Ie, awr fach amser cino.

**O’ch chi’n cael rhywbeth yn y prynhawn wedyn?**

O’n i’n cael *pastie* neu rywbeth.

**O’ch chi’n cael brêc yn y prynhawn ‘fyd te?**

I gino, ‘na i gyd. O’n i ddim yn cael dim byd arall nes ‘yn bod ni’n mynd gatre.

**O’dd e’n brynhawn hir te?**

O’dd.

**Cwrddoch chi rhywun arall o Gymru ‘na te?**

Naddo, neb.



**Oedd cinio twym ‘da nhw’n y cantîn oedd e?**

Sa i’n cofio. Oedd, siwr o fod. Sa i’n cofio’n iawn, ond o’n i ddim yn cael cino. O’n i’n meddwl bydde mwyo arian i hala gatre i Mama ondyfe.

**O’ch chi’n gallu mynd nôl yn gynt, ne o’ch chi’n gorfod cael yr awr?**

Na, o’n i’n cael yr awr.

**O’ch chi’n gorfod talu am yr awr wedyn?**

O’n, o’n.

**Whare teg i chi’n meddwl am ych mam. A un diwrnod off yr wythnos wedoch chi oedd e.**

Ie. P’un ai o’n i’n cael dydd Sadwrn off, sa i’n cofio. Fi’n cofio o’n i’n gweithio nos Sul pan o’n i’n shifft nos.

**Beth os o’ch chi’n moyn amser off i rywbeth te, oedd e’n bosib cael amser off?**

Na, o’n i ddim yn cael amser off. O’n i ddim wedi gofyn am amser off eniwe. Beth oedd ‘da chi i neud? O’dd dim byd ‘da ni i neud oedd e? Pob un yn neud ‘i gore bryd hynny amser rhyfel.

**O’dd sbort i ga’l ar y bys?**

Nagodd. O’dd pawb wedi blino ac yn falch o gael mynd gatre.

**Beth am yn y bore te?**

Ie.

**Ond o’dd lot o bobol dieithr wedi dod at ei gilydd fan ‘na o’dd e?**

O’dd.

**Gwedwch chi y rhai o’dd yn gwitho’n Morris Motors ne llefydd fel ‘na, o’dd lot o bobol yn nabod ei gilydd.**

O’dd.

**O’dd hwnna’n teimlo’n ddieithr i chi te bod yr holl bobol ‘ma o dros y wlad i gyd?**

O’dd. Dim ond y rhai ar ‘yn bwys i ‘n i’n dod yn gyfarwydd â nhw chwel.

**00.43.20: Buoch chi ‘na dros amser Nadolig o gwbl?**

Na.

**O’n nhw ddim yn trefnu unrhywbeth cymdeithasol i chi te?**

Na. Pawb i neud ei job ‘na i gyd, a gwaith, a mynd gatre.

**Os unrhywbeth yn aros yn y cof gyda chi am eich amser chi fanna?**

Na, sa i’n credu. Dim ond bod ni’n neud ‘yn gwaith, ‘na i gyd. A edrych ‘mla’n i fynd gatre weekend, ‘na i gyd.

**00.44.02: Shwd o’ch chi’n twmlo pan ddath yr amser i chi adael? (O’ch chi’n rhy dost i gario ‘mla’n.) Shwd o’ch chi’n twmlo, o’ch chi’n gwbod byddech chi’n colli’r arian?**

O’n i’n falch o gael mynd gatre. O’n i’n dost. O’n i’n gorfod mynd i Craig y Nos wedyn ‘nny. Tri mish fanna. A Mama’n dod lan i ngweld i. Dim ond bob mish o’n nhw’n cael

fisitors pyr'nny. A bwyd plaem. A gwely, a pan o'dd hi'n bwrw glaw o'dd y dryse ar agor. O'ch chi ddim yn ca'l. O'dd shîten ar y gwely, a'r cwbl ar agor, fresh air oedd hi pry'nny. Bwyd plaem a fresh air, ac wrth gwrs o'dd fluid ar y lung gyda fi. Ac o'n nhw'n doddi syringe a tiwb mowr, ac o'n i'n paso mas bob tro pyr'nny yn cael hwnna. A 'na fe, des i gatre a bues i'n gwd. Dishgwllwch arno i. Wy' 'di gweld mwy nag Alice, a Sid 'yn frawd, Megan. So fi yn tough after all.

**00.45.11: A beth ddigwyddodd pan ddethoch chi mas wedyn 'nny? Beth buoch chi'n neud pan ddethoch chi mas? Dethoch chi gatre.**

Do, gweithio, helpu pawb bues i'n neud. Helpu yn decoreto, bues i'n gweithio i Gwenford, ochor draw y capel fan'na, helpu mas o'n i'n neud.

**Ond o'dd yr arian ddim cystal.**

Na, rhywbeth bach o'n i'n cal ife. A etho i i'r ffactori. Bues i'n y ffactori wrth gwrs yn Llanelli, fanna yn neud y pop fanna.

**Beth oedd enw'r ffactori yna te?**

Wel, Hargreaves o'dd e, sa i'n cofio, un fach o'dd e, yn neud pop, p'un ai os o'n nhw'n neud finegar. Sa i'n cofio, ond pop o'dd e fwya.

**Beth o'dd enw'r stryd 'na'n Llanelli, chi'n cofio?**

Sa i'n cofio, nage St John's Street, stryd fach ar ochor yr Odeon o'dd e.

**00.46.02: Chi'n cofio ymbytu pa flwyddyn o'ch chi fanna?**

O'n i wedi bod gatre, o'n i wedi dod mas o'r, o'n i'n 'yn twenties ife. O'n i wedi dod mas o'r Sanitorium pyr'nny. O'n i wedi bod gatre a ca'l job yn y ffactori fanna.

**A faint o'dd yn gweithio fanna wedyn?**

Bytu dwsin fel 'na o'n i.

**A fel o'ch chi wedi cael y job 'na?**

Sa i'n cofio. O'dd Mabel o'dd yn byw'n Ponthenri. O'dd hi'n gwitho'n yr un man a fi'n y pop factory. Sa i'n cofio fel etho i 'na. Whilo am job ne' rywbeth i neud.

**A beth o'dd ych job chi'n y ffactori 'na te?**

Wel, golchi poteli pop yn lan, na i gyd, a paco nhw'n y crates. Cases pren oedd pyr'nny chi'n gwbod.

**00.47.22: Chi'n cofio faint o'ch chi'n cael fanna?**

Sa i'n cofio faint o'n i'n cael fanna.

**Shwd beth byddech chi'n cymharu'r job 'na fanna?**

O'dd arian mowr yn y ffactori.

**Ond o'dd e'n fwy cartrefol yn Llanelli.**

O'dd. O'dd e i gyd yn ddigon o sbri fanna.

**O'ch chi'n joio fwy fanna?**

O'n. O'n i gatre chwel ife.

**Fel o'ch chi'n mynd mewn te?**

Bys yn mynd o Bonthenri ife.

**00.48.00: Chi'n cofio pwy amser o'ch chi'n gadael?**

Na, sa i'n cofio. Dechre am naw fi'n credu o'n i. Naw nes bod hi bump, fi'n credu rhywbeth fel na.

**00.48.15: A pan o'ch chi'n gweud bod chi'n cael sbort chi'n cofio'r teip o beth o'ch chi'n neud?**

O'n nhw'n doddi fi i ganu. O'n i'n canu. 'Delilah' o'dd y, o'n nhw moyn i fi gan, 'Go on'. O'n i'n gorffod canu.

**O'ch chi'n neud tipyn o jobsys gwahanol (ar ôl dod nôl o Castle Bromwich). Ble o'ch chi fwya, chi'n cofio? O'ch chi gyda Brynstores..**

Wel, bues i'n Cynheidre chwel dofe, yn Thyssens, yn cla'u'r offices bob nos. Bues i ddeg mlynedd fanna.

**A buoch chi am gyfnod byr yn y ffactori bop. Ac o'dd hwnna'n y forties?**

Ie, yn 'yn twenties o'n i pyr'nny?

**A shwd beth o'dd pethach fanna te? (O'ch chi wedi bod yn gwitho mewn ffactori mowr, mowr yn Birmingham.)**

O'n i'n golchi poteli pop, 'na beth o'n i'n neud fanna, a paco nhw yn y cesys mowr 'ma ife. O'n nhw'n mynd mas wedyn 'nny i siope.

**Siope lleol o'n nhw'n mynd?**

Ie, Llanelli yn rhywle.

**Chi'n cofio pwy deip o pop o'dd e?**

Hargreaves Pop. Soda water o'dd y mwya o fynd pyr'nny. Burdock a soda water, cream soda fi'n meddwl. A dandelion and burdock ife.

**Ac o'ch chi'n gweud bod chi'n dechre ymbytu naw fanna. Ddim mor gynnar.**

A o'n i'n gwerthu crisps a bocsys Smiths crisps pyr'nny. O'n i'n ca'l nhw'n siep. O'n i'n mynd gatre â bocsed.

**O'ch chi yn cael percs fanna te?**

O'n i'n ca'l nhw tamed bach yn siepach ife, sa i'n cofio faint ond o'n nhw'n siepach i fynd gatre.

**O'ch chi'n cael ambell i boteled o bop fanna te?**

Na, o'ch chi'n gallu yfed e 'na. O'n i ddim yn mynd gatre â pop.

**00.50.28: Pwy amser o'ch chi'n cwpla fanna wedyn?**

O'n i'n cwpla am bump fi'n credu.

**O'ch chi'n joio gwitho 'na?**

O'dd. O'dd hi'n itha da 'na.

**Fel o'dd hwnna'n cymharu 'da'r ffactori fowr na'n Birmingham te?**

O'dd hi'n dawel fanna chwel o'dd hi.

**O'dd yr un pressure arnoch chi fanna o ran y gwaith?**

Nagodd. Un bos bach o'dd 'da ni fanna chwel.

**Ife merched o'dd yn gwitho 'na fwy?**

Merched o'n nhw i gyd.

**Ar wahan i'r bos ife?**

Ie.

**A ife fe oedd yn dangos i chi beth i neud?**

Ie. Lle bach o'dd e.

**O'dd yr awyrgylch yn fwy catrefol fanna o'dd e?**

O'n ni gyd yn canu all out chi'n gwbod.

**O'ch chi'n gallu canu wrth wneud ych gwaith?**

O'n, o'n. Dim ond golchi poteli a rinso nhw, a golchi nhw'n lan.

**Wedech chi bod mwy o sbort i gael fanna te?**

O'dd. Wel, o'n i'n nabod nhw chwel ife.

**00.51.32: Ble o'dd y merched erill yn dod?**

Yn dod o'r dre chwel ife. Dim ond fi a Mabel o'dd o Bonthenri.

**Ond shwd o'dd yr arian yn cymharu yn gwitho fanna te?**

Walle bytu eleven pound neu rywbeth fel 'na. Sa i'n cofio'n iawn. O'dd e ddim yn llawer.

**O'dd hwnna cyn bod chi'n priodi o'dd e?**

O'dd.

**Ac o'ch chi'n neud yr un peth gyda'ch arian, o'ch chi'n rhoi arian gartre?**

O'n. Pam bues i'n helpu gyda menyw y ffarm, 'na pwy o'dd hi o'dd mamgu Gwenda Owen chi'n gwbod. Bues i gyda hi pan o'n i'n ifanc. Beth o'n i, fifteen fi'n credu o'n i. Ac o'dd hi'n fenyw lyfli. Ar Heol Llannon o'dd hi, ffarm lan fan 'nny. A fe sydd â'r coffyne nawr, bues i'n poeni fe, 'Jiw, bues i'n carco chi'. O'dd e'n grwt tawel. 'Fi'n dawel o hyd', o'dd e'n gweud 'tho fi. William John ne' rywbeth o'n nhw'n galw fe. Crwt tawel o'dd e, a o'dd wha'r 'da fe, Joyce, a farwodd hi. Ond o'n i'n joio fanna.

**00.53.04: Yn gweithio mewn ffactri fach fel Hargreaves, gwedwch chi bod problem, bydde dim undeb mewn lle fel 'na, bydde fe.**

Na.

**Gwedwch chi bod problem, bod ishe sorto rhywbeth mas, fel byddech chi'n mynd ymbytu ddi te?**

Buodd dim problem 'da ni o gwbl. Dim ond siarad â'r bos. Un o'dd 'da ni. Dim ond un dyn o'dd 'na.

**00.53.28: Ife fe o'dd bia'r lle?**

Sa i'n gwbod p'un ai taw fe o'dd bia'r lle. Dim ond un rŵm mowr o'dd e a llofft ble o'n nhw'n neud. O'dd un fenyw 'na. Hi o'dd yn neud y pop ac o'dd e'n dod lawr. Hi oedd yn neud y pop.

**Dim ond hi o'dd yn neud y pop te?**

Dim ond y hi.

**A beth o'dd y conditions fel fanna? O'ch chi'n gweud o'r blaen bod e tamed bach yn wlyb 'na.**

Wel, bydde'r llawr chwel, achos o'n i'n golch shwd gymint o boteli ife. O'dd e'n eitha da.

**O'ch chi'n neud popeth â llaw te o'ch chi?**

O'n. Machine o'dd, a poteli o dan y machine, a dŵr yn dod â golchi nhw i gyd chi'n gwbod.

**00.54.24: O'ch chi'n gallu safio peth arian pan o'ch chi'n gwitho te? O'ch chi'n rhoi rhwbeth gatre, o'dd rhywbeth drosto?**

Na. O'dd Mama'n gweud cadwa beth sy' eishe arnot ti o'dd Mama'n gweud.

**O'ch chi'n caru pyr'nny?**

Na, wel. Sa i'n cofio. Bues i'n mynd gyda'r un o'n i'n canu, Wil Aubrey o Bontyberem, bues i'n caru â fe. O'dd e'n whare drwms. A fi o'dd yn canu a Bryn o'dd yn whare'r accordion, a Archie Clark yn whare'r accordion a Elir Williams o Bontyberem. Y fe o'dd wrth y piano. A fi o'dd yn canu reit. A o'n i ddim yn ca'l llawer, bytu pum punt ne' rywbeth fel 'na chi'n gwbod.

**00.55.40: O'ch chi'n cael tamed bach ar ben ych pai am ganu wedyn?**

O'n i'n canu. O'n i'n mynd i Ga'r fyrddin falle, neu Tymbel i dansys, a Trimsaran. Sdim dal ble o'n i'n mynd, y band yn mynd. A fi o'dd yn mynd. O'dd Megan 'yn whar yn chaperone, o'dd hi'n ca'l dod 'da fi.

**00.56.00: Pwy o'dd yn hala hi gyda chi te, ych tad?**

Ie.

**Beth o'ch chi'n gwisgo'n y ffactori pop te? O'ch chi'n gwisgo rhywbeth dros eich dillad man'nny.**

Fi'n credu o'n i'n gwisgo overall man'nny.

**O'n nhw'n rhoi rheina i chi?**

Na. Sa i'n credu o'n i'n gwisgo overall 'fyd, achos o'dd e ddim yn waith brwnt chwel.

**Jest bod e'n wlyb 'na ife?**

Y llawr, tamed bach, 'na i gyd, achos o'n i'n golchi'r llawr o hyd ar ôl cwpla, y cwbl yn lan chwel ife.

**O'ch chi'n teimlo'r un blinder fanna ag o'ch chi'n y ffactri arall?**

Na.

**A shwd o'dd y cyfleusterau fanna achos o'ch chi'n gweud taw ffactori fach o'dd hi. A shwd oedd y toilets a o'dd rhywle i fyta 'na?**

Na. O'n i'n mynd â te a sangwejes 'da ni. A dim ond eiste lawr 'na i gyd. O'dd dim lle. O'dd e ddim yn lle mowr.

**O'dd hi'n swnllyd fanna?**

Nagodd.

**O'ch chi'n gallu clebran te?**

O'n.

**Beth o'ch chi'n clebran ymbytu fwya?**

Sdim dal beth. Ymbytu dansys neu rywbeth.

**O'dd rhywun arall o Ponthenri 'na, chi'n cofio o le o'dd y merched eraill yn dod?**

Na. O'r dre o'n nhw, rhan fwya.

**00.57.22: Beth o'ch chi'n siarad, Saesneg neu Gymraeg?**

O'n i'n siarad Saesneg a Cymra'g 'da nhw.

**O'dd rheolau fanna, chi'n gwbod Health and Safety fanna?**

Na, sa i'n cofio dim byd. O'dd dim byd dansherus 'na chwel.

**O'dd hi'n o'er fanna te?**

O'dd hi'n o'er. O'dd. Ond o'n i'n gwisgo digon. Sa i'n cofio os o'dd gwres 'na chwel.

**00.58.00: Un bos o'dd 'na, shwd o'ch chi'n siarad â fe wedyn?**

O'n i ddim yn gweld llawer ohono fe. O'n i'n neud yn gwaith a 'na i gyd. Dod rownd bob hyn a hyn.

**O'ch chi'n meddwl bod y pai yn deg?**

O'dd am beth o'n i'n neud chwel ife. O'dd e ddim yn waith trwm.

**Canu o'dd ych dileit chi erio'd, o'dd gwitho mewn fel 'na'n rhoi digon o siawns i chi fynd off i ganu?**

O'dd.

**Chi'n cofio faint o ddyddie'r wythnos o'ch chi'n neud man'nny?**

Bob dydd. Dim dydd Sadwrn wrth gwrs.

**Ond o'ch chi ddim yn gwitho dydd Sul man'nny o'ch chi?**

Na. Dydd Llun i ddydd Gwener.

**00.59.06: Beth am brêcs man'nny wedyn?**

O'ch chi'n ca'l awr i gino chwel.

**Beth am brêc bach yn y bore?**

Fi'n credu o'n i'n ca'l cwarter awr bach, sa i'n cofio.

**O'ch chi'n ca'l ych talu am holidays man'nny?**

Sa i'n cofio. Buon ni ddim blynydde mowr man'nny chwel. Ceuodd e wedyn 'nny fi'n credu.

**Ife ‘na pam gwploch chi?**

Na. Detho i gatre. Etho i’n dost.

**Beth o’dd yn bod arnoch chi te?**

Sa i’n cofio’n iawn. A o’dd Mama’n gweud, cwpla ‘na.

**O’ch chi’n teimlo’n rhy dost i gario ‘mlaen fanna?**

O’n. Detho i gatre wedyn ‘nny.

**Shwd o’ch chi’n teimlo’n cwpla fel ‘na?**

O’dd dim gwahanieth ‘da fi.

**O’dd lot mwy o waith i gael pyr’nny o’dd e?**

O’dd.

**O’ch chi’n gweld pobol o’dd yn gweithio gyda chi fanna tu fas y gwaith?**

Dim ond yn y gwaith.

**O’ch chi ddim yn cwrdd â nhw tu fas y gwaith?**

Na.

**Gyda pwy o’ch chi’n cymdeithasu fwya te? Gwedwch bod chi’n mynd i dance, nage gyda pobol o’r gwaith o’dd e?**

Wel, dim ond canu o’n i’n neud ife. A mynd i ddawnsio. Bydde Bryn yn gweud, ‘Will the crooner come up on the stage please’.

**Beth o’ch chi’n gwisgo i fynd i ganu te?**

Sdim dal. Falle bydden i wedi cael sgert newydd ne’ rywbeth fel ‘na.

**01.01.09: Mas o’r holl lefydd chi wedi gweithio pwy fath o waith o’dd well ‘da chi orau te? O’ch chi’n lico gwneud gwaith ffactori?**

O’n ond o’dd well ‘da fi helpu. Yn Brynstores fanna o’n i’n joio smwddo, golchi a cl’au. O’n i’n dwli ar gl’au ffenestri. A helpu, emulsiono, peintio a pethe fel ‘na. Helpu ffrindie chwel ife.

**Beth o’ch chi ddim yn lico ymbytu gweithio mewn ffactori?**

O’dd y sŵn ‘na, amser rhyfel oedd hi ife. O’n i moyn bod gatre. O’n i’n gweddïo bydde’r boms ddim yn disgyn a’n bod ni’n ca’l ‘yn lladd. Edrych ‘mla’n i ga’l mynd gatre ife.

**Ond gwedwch ar ôl ‘nny buoch chi’n rhywle fel Llanelli, o’dd well ‘da chi’n gwitho yn helpu rhywun yn y tŷ na gweithio mewn rhywle fel ‘na?**

O’dd well ‘da fi helpu yn y tŷ. Mr Davies, y teacher, chi’n cofio fe? Bues i’n carco crwt bach lan fan ‘na. O’dd hi mor dawel, ei wraig e, dawel iawn, ddim yn mynd i unman. O’dd hi’n gofyn i fi, ‘Shwd beth o’dd hi’n y dre’. Bues i’n carco Jeffrey, crwt fan’na.

**Un crwt o’dd ‘da fe ife?**

Ie.

**Fi'n cofio fe'n dod i ysgol Ponthenri, o'dd e wedi riteirio ac o'dd e'n dod nôl i helpu.  
O'n i'n ofon e.**

Davies bach o'n nhw'n galw fe.

**O'dd e'n fyw ond o'dd e ddim yn fach o'dd e?**

Ond ysgol Pontiets o'n i chwel, Mr Evans o'dd yr headmaster 'da ni chwel.

**Melva, diolch yn fawr.**

### *English summary*

**Spitfire Factory, Castle Bromwich (1940) & Hargreaves Pop Factory, Llanelli ( 1940s)**

**Interviewee: VSW012 Melva Jones**

**Date: 2.12.13**

**Interviewer: Susan Roberts on behalf of Women's Archive of Wales**

Melva was born on 4<sup>th</sup> June, 1924 in Pontyates, Carmarthenshire. Her father worked in the colliery, and then went on to work in the powder factory in Burry Port (or Pembrey). Her mother looked after their eight children but when she had to spend a year in Llanybydder sanatorium the daily work of looking after them fell onto her father's shoulders. He didn't work during this time.

Melva burnt her back when she was eleven or twelve years old. She'd gone too close to the fire and her clothes caught fire. As a consequence she spent a year in hospital in Llanelli. (She had to lie on her stomach for three months.) As she was getting better she would help the other patients by going to get them bedpans.

Melva was the second eldest of the children (there were four girls and four boys). She didn't like school. She'd missed a year because of the fire and then she was knocked down by a motor bike so had missed more school. Unlike her other siblings, Lili and Luther, she didn't go to secondary school. She left school when she was fourteen years old and went to work on a farm.

When she left school she didn't know what she wanted to do, she just wanted to "help" so did a little bit of everything.

She says that Luther, Lil and Megan were the brainy ones. But she was the one who'd missed so much of her schooling.

She worked on a little farm up in Llannon(Road, Pontyberem?). She then worked in Brynstores (Ponthenri) and also at some point worked as a cleaner with Thyssen in



Cynheidre. She did this for ten years and received a gold watch for her service. (She was married by this time.)

**00.06:** During the war all the young girls had to go to the land army or the air force when they were seventeen. Melva was only sixteen and a half so she decided, along with her sister, to go to Birmingham. Her mother's cousin from Llanelli lived there, and worked in a factory in Castle Bromwich.

He met them off the train and took them to look for digs. They knocked door-to-door but couldn't find anywhere. He persuaded his own landlady to rent them a box room. It was a small room and the landlady didn't have many culinary skills. She'd ask every night, 'What do you want for sandwiches, Melva? Bread and dripping, or bread and jam?' Food was rationed at the time. Melva would throw the sandwiches to the birds in the morning and buy toast in the factory.

**'I was working, it was from bed to work and from work to bed. We never saw anything of Birmingham.'**

Bombs were being dropped while they were in Birmingham. They came home in the morning they would see that some houses had been flattened.

**'The air raids would come and we would get into the cupboard under the stairs in the lodging house, a tin hat on our heads, and we'd pray that we'd be okay, you know.'**

**00.08.11:** They had chosen to go to Birmingham, knowing that they would be called up to go somewhere. What drew them to Birmingham was the fact that their mother's cousin was there.

They started work in the factory straight away after arriving. Her cousin had arranged the work for them.

When Melva became ill her mother travelled up to see her and brought a chicken with her. She hadn't had time to cook it beforehand so it was cooked at the house where Melva was lodging. Melva's mother had to show the landlady how to stuff the chicken and cook it.

The factory made parts for Spitfires – parts of the wing, the cogs and the screws, bolts, etc. She and Megan would meet at lunch time. They didn't have the facilities to cook for themselves at the place where they lived. They would have to boil water in order to have a wash. There was no toilet upstairs but had a chamber pot instead.

She remembers her first day.

**'Well, I felt lost, and I wanted to go home. Megan and I were saying, jiw, jiw, well, well, I wish I was at home now.'**

When the air raids came she would pray that they would be okay, and wished they were at home. They would come home for the odd weekend, but would spend most of the time travelling. The train journey would take hours. They would go out to the dance in Pontyberem on the Saturday night and travel back on Sunday morning or evening. Melva thinks she might have broken her heart if she'd gone there on her own.

There was a man in charge of every group, and he would give out the jobs to be done. He would show them what they needed to do. After finishing Megan would write down what she'd done and then move on to the next job. They only had a quarter or half an hour at lunch time. The factory itself was huge. They met girls from all over Britain.

Their co-workers knew that Melva and her sister were from Wales and would ask them to sing, even though it was too noisy in the factory to hear them. It was a very noisy place. When the air raids came the machines would be stopped and everything went quiet. This might last up to half an hour until they had the all clear.

Melva went to work at the factory by bus. There were both men and women working there. The charge hands were men. They came round and gave the workers their jobs.

Both Melva and her sister enjoyed working there. They would leave the house at six thirty in order to start at seven or half past seven, and worked until six o'clock at night. Melva would have food and go straight to bed.

Some of the jobs in the factory were dirty. The bolts that they used came in oil. Other jobs, such as making the wings of the planes, were clean jobs. They didn't wear special clothes for the work but put something on their heads because of the machines.

Melva can't remember exactly how much she paid for her lodgings but thinks it might have been about seven pounds a week, which was a lot of money then. She would send eight or nine pounds a week home, and Megan would send ten pounds. (Megan made more money than Melva.) The two of them would send a registered letter every Monday morning. The postwoman at home would tell her mother, 'You've got good daughters, Annie'. Their mother was very proud and would tell everybody.

When Melva and Megan had a break in work they would have toast instead of the dripping sandwiches provided by their landlady. They had an hour's break at lunch time. (She says earlier that it was half an hour.) Nobody went out of the factory at lunch time as there was nowhere to go nearby. The Scottish girls at the factory were very friendly but Melva had problems understanding their accent.

Melva had been there nearly a year when she became ill. Melva is convinced that the landlady didn't dry the bedclothes adequately and as a result the bed sheets would be slightly damp.

Melva was experiencing difficulty bending and felt breathless. She walked to the surgery where the doctor told her that she had pleurisy. She had to go to the hospital for a few days. Her mother arrived and persuaded them to let her go home with her.

Melva and Megan would sing during their breaks. After returning to Wales Melva sang with Bryn's Band in Pontyberem.

They were paid on a piece work basis in the factory. Melva was number F64 and Megan was F63. There wasn't much opportunity to chat while they were working, everybody was too busy. There were many young workers in the factory.

They thought the pay was a fortune. Melva kept some of her wages to pay for her digs and to buy food, and perhaps an item of clothing. She would go shopping when she was home for the weekend. She might come home for one weekend every month. She would have liked to come home more often but the train fare was expensive and she could only spend one full day at home over a weekend.

Melva can't remember if she ever worked Saturdays, but remembers working night shift on the Sunday. The fastest workers earned the most money. They were told to keep the guards on the machines. Melva thinks that her sister may have omitted to do this because a piece of shrapnel went into her eye. This happened shortly after Melva had gone home.

There was no union at the factory. Nobody complained, everybody just got on with their work and went home. Although Melva enjoyed her experience, she would have preferred to have been at home. Everybody tried to make the most of it because it was part of the war effort. She thinks that she was treated fairly. The charge hands wore overalls. Melva would go into a different room to get what she had done weighed. She would be paid on the basis of this weight.

In 1940 Megan lost her eye in the accident at the factory (although Melva describes this as blindness in one eye as well.) She wasn't paid any compensation for this.

There was a first aider there to attend to any minor injuries.

Melva and Megan would have their toast in the canteen in the factory. The toilets in the factory were clean and tidy. There was somebody in the factory every day brushing the floor. This was necessary as there would be so much debris coming off whatever they were working on. Melva soon got used to the noise.

They had butter and jam in the factory despite rationing. There wasn't much leg pulling or joking in work – there wasn't time. Some of the workers were very keen on earning money – they would be earning twenty, thirty, forty pounds a week. Melva didn't tell anybody at home that she was homesick. She would tell her father that her lodgings were fine, but her mother saw for herself what things were really like when she came up to fetch Melva. Melva went home on the train with her mother, with a shawl wrapped around her.

Melva talks of the time she became ill.

**00.40.28:** Everybody had to clock in and clock out. Melva was never late for work. There wasn't an opportunity to work longer hours. If somebody wanted to earn more money they had to work faster. She didn't meet anybody else from Wales working there. Melva didn't eat a dinner in the canteen because paying for it meant there would be less money for her to send home to her mother.

They weren't allowed to have time off. Melva never asked anyway and didn't mind because she was doing her best for the war effort. There wasn't any laughing or joking on the bus because everybody was so tired they just wanted to go home. There were no social events organized. Melva just did her work and lived for the weekends when she could go home. She was glad when she went home for good but had to go to Craig y Nos for three months afterward to recover. She was only allowed visitors there every month. The food was very basic and when it rained they would keep all the doors open. She had fluid on the lung which

would be drawn using a syringe and a large tube. Melva would pass out every time this procedure was carried out.

**00.45.11:** After recovering from pleurisy Melva spent her time helping other people locally. She also went to work in Hargreaves pop factory in Llanelli. It was a small factory making pop (and possibly vinegar too.) It was situated in one of the side streets near to the Odeon. There were only about a dozen people working there. Her job was washing bottles and packing them into crates. It didn't pay as much as the Spitfire factory but it was more homely. She would catch the bus from Ponthenri into work.

**00.48.00:** She started about nine o'clock and finished at about five o'clock. The factory produced soda water, and dandelion and burdock. They also sold crisps. She was allowed to buy a box at a discounted rate, and was allowed to drink the pop but wasn't allowed to take it home. Melva only had one boss there, who was male and apart from him all the other employees were female. The other girls were from Llanelli, apart from Melva and a woman called Mabel who was also from Ponthenri.

Melva worked on a farm in Heol Llannon, Pontyberem when she was about fifteen (helping the grandmother of Gwenda Owen), looking after the little boy.

There was no union in the Hargreaves factory, although there were never any problems there. There was just one boss – a man – who Melva says was very fair. There was a woman upstairs making the pop. The floor would be wet where Melva was working because it was where the bottles were washed.

Melva is a good singer and would get paid for singing with Bryn's Band from Pontyberem in places like Carmarthen, Tumble and Trimsaran. Her sister, Megan, would act as chaperone.

When she worked in Hargreaves she always washed the floor after work. She didn't get as tired working here as she did at the Spitfire factory. There weren't as many facilities at Hargreaves, of course – it wasn't a big place and had no canteen. She would take her own sandwiches for lunch. It wasn't noisy there either, and workers were allowed to talk as they did their jobs. Most of the girls were from town (Llanelli) and Welsh and English were spoken in the factory. Melva can't remember there being any rules, and the work wasn't dangerous. It was cold though, and she had to wear plenty of clothing. The working week was Monday to Friday, and she had an hour for lunch. She thinks that she had a morning break. She left Hargreaves because she became ill and her mother advised her to finish there. She didn't mind that she had left the job. She didn't socialise with people from the factory outside work hours, but concentrated on singing as a crooner in her spare time.

Melva enjoyed working in a factory but preferred doing work that involved helping people. When she worked in Brynstores grocer in Ponthenri she enjoyed washing and ironing, and cleaning. She loved cleaning windows.

She says of her time at the Spitfire factory:

**“There was that noise there, it was war time. I wanted to be at home. I would pray that the bombs wouldn't fall and kill us. I looked forward to going home.”**